

Grŵp Cyngori ar Faterion Moesol a Moesegol Covid-19 Cymru
Dydd Iau 21 Mai 2020 16:00-17:30

Trwy Skype.

Cam gweithredu	Cyfrifol
1. Aelodau pob un yn cynhyrchu paragraff yn seiliedig ar safbwyntiau unigol ac yn eu hanfon at yr Ysgrifenyddiaeth i'w casglu ynghyd.	Pawb
2. Yr Ysgrifenyddiaeth i benderfynu ar safbwynt Cymru ar yr ap olrhain a'i rannu gyda'r grŵp	Ysgrifenyddiaeth
3. Dylid datblygu dogfen sylwebaeth ar y cyngor ar gydsyniad sydd eisoes wedi'i gylchredeg i'r GIG, gan ddefnyddio'r sylwadau a ddaeth i law oddi wrth y grŵp hwn.	Ben Thomas
4. Carol ac Aled E i ddatblygu papur yn ymwneud ag olrhain ar sail aml-ffydd.	Ysgrifenyddiaeth
5. Gwirio papurau SAGE am gyngor ar CPR a PPE	Ysgrifenyddiaeth

Nodyn o'r Cyfarfod

Rhif	Pwnc
1.	<p><u>Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau</u></p> <p>Gwnaeth y Cadeirydd gyfwyno'r rhai a oedd yn bresennol a nodi ymddiheuriadau. Ymddiheuriadau gan Simon Wilkinson, Kathy Riddick a Helena Herklots, gyda Valerie Bingham yn bresennol.</p>
2.	<p><u>Pwyntiau gweithredu a chofnodion blaenorol</u></p> <p>Cytunwyd ar y cofnodion ac ystyriwyd y camau gweithredu</p>
3.	<p><u>Meysydd blaenoriaeth i roi sylw iddynt wrth gynnal gwasanaethau hanfodol y GIG/cynllun adfer y Llywodraeth</u></p> <p>Cyfarfu Heather â Gwasanaethau Cyfreithiol ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i drafod y cyngor cyfreithiol a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol. Trafodwyd hyn yng Nghronfa Risg Cymru. Nid bwriad y papur cyfreithiol oedd cyfarwyddo polisi. Y bwriad gwreiddiol oedd iddo fod yn gyfrinachol a nodi'r sefyllfa gyfreithiol yn unig, nid rhoi cyngor ar bolisi.</p> <p>Mae'r prawf ar gyfer esgeulustod clinigol yn ymwneud â "beth fyddai clinigwr rhesymol yn ei wneud". Gall rheolau rhesymoldeb fod yn wahanol yn seiliedig ar benderfyniadau a wneir yng ngoleuni Covid-19.</p> <p>Cytunwyd y dylid datblygu dogfen gynghori ar ffurf sylwebaeth, gan ddechrau gyda'r sefyllfa gyfreithiol. Cytunodd Ben Thomas yn garedig i ddrafftio dogfen a defnyddio'r sylwadau a gafwyd gan y grŵp hwn.</p>

Darparodd Viv Harpwood bwyntiau trafod i'r grŵp eu hystyried mewn perthynas â meysydd o bryder wrth symud i gam nesaf Covid-19. Roedd y meysydd trafod yn rhai eang gan gynnwys tystiolaeth yn dangos bod dynion yn fwy tebygol o fod yn sâl neu farw o'r feirws. Ceir gwrthdaro hefyd lle mae Llywodraethau'n chwilio am gyngor gwyddonol, ond bod gwyddoniaeth yn symud yn araf a bod angen penderfyniadau.

Roedd y pwyntiau trafod yn cynnwys

- Pwysleisiwyd bod angen undod rhwng y cenedlaethau
- Bydd materion yn ymwneud ag addysg yn bwysig hefyd gan y gallai'r bwlch rhwng cyflawnwyr uchel a chyflawnwyr isel ehangu, tra gallai prifysgolion weld gohiriadau torfol.
- Ystyrir bod cydbwysio hawliau yn bwysig iawn. Mae Cymru'n gweithio gydag undebau athrawon i ystyried y dull gweithredu o ran addysg.
- Effaith eang ar y celfyddydau hefyd
- Mae adferiad economaidd yn bryder amlwg ynglŷn â diswyddiadau, yn ogystal â phryder am iechyd meddwl a llesiant.
- Golwg ehangach na materion iechyd yn unig. Gofynion iechyd cyhoeddus v hawliau dynol yn gwrthdaro. Mae profiad Seland newydd yn dangos poblogaethau mewn podiau cymdeithasol ac yn aros yn ynysig yn y grwpiau hyn. Mae'r dull hwn yn helpu iechyd y cyhoedd, ond gall weithio yn erbyn cydlyniant cymdeithasol.
- Risg o fynd yn ôl o ran y model cymdeithasol o anabledd, os pobl anabl yw'r olaf i ddod allan o gyfyngiadau symud. Ystyriwyd hefyd nad yw dychwelyd at fusnes fel arfer yn un y mae llawer o bobl am ei weld, gan nad oedd busnes fel arfer byth er eu lles. Adnabod pobl fel rhan o grwpiau yn hytrach nag fel pobl.
- Gallai golli enillion a wnaed mewn cymdeithas lle mae amodau ac oedran yn arwain at farn wahanol i gymdeithas. Mae masgiau wyneb yn peri problemau i'r byddar er enghraifft. Mae newid marciau ffyrdd yn anodd i rai sydd â nam ar eu golwg. Dull gweithredu trwsogl ac mae rhai pobl yn cael eu cau i ffwrdd er eu lles eu hunain.
- Mae materion sy'n esblygu mewn cymunedau ffydd yn debygol o gael eu hystyried mewn mannau eraill.

Mae'r grŵp hwn yn awyddus i beidio â dyblygu gwaith. Mae trafodaethau'n digwydd yn y Fforwm Cydraddoldebau i Bobl Anabl. Felly, gofynnwyd i bob aelod ddrafftio paragraff o'u safbwynt nhw ynghylch

Cam gweithredu – Aelodau i gynhyrchu paragraff yn seiliedig ar safbwyntiau unigol ac atebion adeiladol a'u hanfon at yr Ysgrifenyddiaeth i'w dwyn ynghyd.

4. Ap Orlhain

Codwyd ymholiad a yw'r ap a ddatblygwyd gan NHSX yn cynnwys y Gymraeg. Nid yw lwerddon a'r Alban yn bwrw ymlaen ag ap y DU. Nid yw safbwynt Cymru yn glir.

Cafwyd ymholiad ynghylch canllawiau a roddwyd mewn perthynas â chydysnio i gynnal profion mewn cartrefi gofal. Efallai na fydd yr hyn sydd orau i'r unigolyn o'r budd mwyaf i iechyd y cyhoedd. Er na all y grŵp hwn ateb y rhain, caiff sylwadau eu trosglwyddo i Ben ac i gydweithwyr yn yr awdurdodau lleol eu hystyried.

Roedd EHRC yn pryderu am yr ap Orlhain. Hygyrchedd yr Ap yn bwysig iawn. Mae'r pryderon yn cynnwys pryder na fydd pobl hŷn yn ei ddefnyddio, defnyddio gwybodaeth ar gyfer dulliau eraill, pobl nad ydynt yn siarad Saesneg a'r rhai â gwasanaethau mewnfudo

	<p>ansefydlog. Mae diffyg ymddiriedaeth yn golygu na fydd pobl yn ei defnyddio ac yn ei gwneud yn aneffeithiol.</p> <p>Cam gweithredu – yr Ysgrifenyddiaeth i benderfynu ar safbwynt Cymru ar yr ap olrhain a'i rannu gyda'r grŵp</p> <p>Mae Carol wedi gweithio ar bersbectif Cristnogol yn ymwneud â'r maes hwn. Gofynnodd y Cadeirydd a ellid ehangu ar hyn i'w ystyried ar sail aml-ffydd yn y fforwm rhyng-ffydd.</p> <p>Cam Gweithredu – Carol ac Aled E i ddatblygu papur ar sail aml-ffydd.</p>
5.	<p><u>Unrhyw fater arall</u></p> <p><u>Blaenoriaethau'r Dyfodol</u></p> <p>PPE a CPR yn ystod cyfnod COVID-19: Crynodeb o'r ymatebion</p> <p>Yn dilyn cais gan grŵp cenedlaethol CEC i CECs ddarparu barn ar PPE a CPR, darparwyd crynodeb o'r ymatebion. Roedd y materion a godwyd yn cynnwys tystiolaeth o bathogenau yn cael eu pasio yn ystod CPR a thensiwn o amgylch perfformiad CPR wrth aros am driniaeth amgen.</p> <p>Cam gweithredu – gwirio a yw SAGE wedi rhoi cyngor ar PPE a CPR.</p> <p>Y cyfarfod nesaf Cytunwyd i gyfarfod eto mewn pythefnos</p>